

# NDA Monthly Update

November 2016

## Summary

- 1,500-plus visitors at supply chain event
- Business Plan consultation to launch
- Dungeness deploys divers
- Steaming ahead at Winfrith
- Bradwell waste planning decision
- Bradwell decontamination milestone
- NDA research brochure published
- Japanese Ambassador visit to Dounreay
- Panorama
- Safety awards for Sellafield
- Nuclear provision document published
- NDA Insight magazine published
- NDA Chief Executive set to retire
- Permission sought to appeal against judgment

## Diary Dates

- |  |                 |
|--|-----------------|
| • IAEA Conference on Radioactive Waste, Vienna           | 21-25 November  |
| • Nuclear Industry Association annual conference, London | 1 December      |
| • NDA Draft Business Plan published                      | 12 December     |
| • UK Radioactive Waste Inventory published               | January 2017    |
| • Women in Nuclear conference                            | 1 February 2017 |

### Supply Chain Event success

More than 1,500 visitors attended the sixth annual NDA Estate Supply Chain Event, held at EventCity in Manchester, making it the busiest and most successful so far. Following morning presentations and the prestigious annual awards ceremony for suppliers, delegates were able to take advantage of informal networking opportunities and a range of sessions on specific topics. Alongside the popular Innovation Zone in the main exhibition hall, 2016 also saw the inaugural Skills Zone, staffed by representatives from training and development organisations.

[Weblink: Supply chain event success](#) and [award winners](#)

### Business Plan consultation set to open

The NDA's draft Business Plan will be launched for consultation on 12 December, running until 3 February 2017. Containing an outline of work planned between 2017 and 2020, the Plan reflects the Strategy document published earlier in 2016. Feedback and comments will be taken into account before the finalised version is published next April.

### Plumbing the depths

In what is believed to be a first for the UK, divers have been working under water to cut up and retrieve items from the spent fuel ponds at Dungeness. Wearing protective suits, with additional shielding from the water, the specialised teams are able to work close to skips and other equipment as well as gain access to awkward areas. Divers, more widely used in the US nuclear industry, can be faster and more effective than the conventional approach where remote equipment is deployed to hoist items from the water, with the potential for airborne contamination.

[Weblink: Divers clean up ponds](#)

### Steaming ahead at Winfrith reactor

The final piece of a complex engineering jigsaw is now being put in place, finally allowing the core of an iconic experimental reactor to be removed. By early next year work will be complete on isolating Winfrith's Steam Generating Heavy Water Reactor from all the plant and equipment that allowed it to operate. This involves removing 1.5km of highly irradiated stainless steel pipework which fed water through the reactor, producing steam to drive the turbine and then re-circulating the condensed water. The complexity of the project meant months of preparation, including the creation of full-scale mock-ups of the plant. Once the pipework – known as steam risers and feeders – is removed, access to the reactor core for decommissioning will be possible.

[Weblink: Reactor decommissioning moves closer](#)

### Essex County Council planning decision

Essex County Council has agreed to remove a planning condition barring Intermediate Level Waste (ILW) from other power plants being stored at Bradwell. Plans to store packaged ILW from Dungeness A and Sizewell A at Bradwell are part of a wider strategy that could save the taxpayer £200 million across the Magnox fleet. The NDA and Magnox will continue to work closely with stakeholders as plans are progressed.

### Bradwell decontamination milestone

More than 10,000 square metres of walls, floors and ceilings have been decontaminated at Bradwell's ponds complex. The complex clean-up, which covers an area similar to a rugby field, ends four years of hard work which began when the spent fuel ponds were drained and stabilised in 2012. This success follows the emptying of the site's 18 underground waste vaults, which contained radioactive metal, sand, sludge and other material which had accumulated over the 40 years while the power station was generating electricity. This follows the completion, earlier in the year, of weatherproof aluminium cladding around the two reactors.

[Weblink: Bradwell decontamination milestone](#)

### Research and Development brochure published

The NDA has published a 20-page brochure outlining its approach to supporting R&D across the estate and highlighting a series of recent case studies. Annual spend on R&D, including direct multi-site investment and funding support for on-site projects, amounts to around £85 million a year.

[Weblink: R&D brochure 2016](#)

### Japanese Ambassador visits Dounreay

NDA welcomed the opportunity to share decommissioning progress at its most northern site with the Japanese Ambassador to the UK. His Excellency, Mr Koji Tsuruoka was joined by Mr Yosuki Ishigami from the Economic Section of the Japanese Embassy and Mr Daisuke Matsunaga, Consul General of Japan in Edinburgh as they visited Dounreay during a two-day visit to the north of Scotland as a guest of Dr Paul Monaghan MP.

[Weblink: Japanese Ambassador visit](#)

### Panorama

NDA and Sellafield Ltd issued a joint statement in response to the Panorama programme which was broadcast in early September.

[Weblink: Panorama statement](#)

### Sellafield safety awards

Sellafield Ltd has recorded one of its best-ever performances in the Royal Society for the Prevention of Accidents (RoSPA) 2016 awards, scooping nine golds and one silver. Now in the 60th year, the internationally recognised RoSPA awards are the UK's most sought-after safety citations. Four of the gold medals were won in the highest hazard areas of the site – the legacy ponds and silos.

[Weblink: Safety at Sellafield is gold standard](#)

### Nuclear provision document published

The NDA has published a document explaining the the origins of the UK's nuclear legacy and the issues with forecasting the cost of such a long-term mission. The Nuclear Provision is the best estimate of how much it will cost to clean up the UK's 17 earliest nuclear sites over approximately 120 years.

[Weblink: Nuclear provision](#)

### NDA Insight magazine published

The latest edition of Insight has been published. Insight is our news magazine where we aim to provide a snapshot of some of the developments across the NDA estate. This edition includes news on the nuclear college, the supply chain event 2016, annual report highlights and a focus on R&D

[Weblink: Insight issue 21](#)

### NDA Chief Executive to retire

NDA Chief Executive John Clarke will be retiring next year. The announcement was made by NDA Chairman Stephen Henwood, who said: "Through his leadership, drive and commitment, John has improved performance at Sellafield with a new operating model, delivered an integrated approach to accelerating decommissioning across the estate and created an optimised strategy, resulting in increased value to the taxpayer." Pete Lutwyche, NDA Chief Operating Officer, has also left to work in the private sector.

[Weblink: NDA CEO retirement announced](#)

### NDA seeks to appeal in ES vs NDA case

The NDA has submitted an application to the Court of Appeal, seeking permission to appeal against the July judgment in the claim for damages brought by EnergySolutions EU. EnergySolutions EU was one of the unsuccessful bidders in the competition to appoint a new Parent Body Organisation (PBO) contract for the 12 Magnox and RSRL sites. The claim is for damages only. The NDA's award of the contract to the Cavendish Fluor Partnership is not being challenged.

# Diweddariad Misol yr NDA

## Tachwedd 2016

### Crynodeb

- 1,500 a mwy o ymwelwyr mewn digwyddiad ar gyfer y gadwyn gyflenwi
- Ar fin lansio ymgynghoriad ar y Cynllun Busnes
- Dungeness yn defnyddio deifwyr
- Magu stêm yn adweithydd Winfrith
- Penderfyniad am gynllunio gwastraff Bradwell
- Carreg filltir yn y gwaith o ddadlygru Bradwell
- Cyhoeddi llyfryn am ymchwil yr NDA
- Llysgennad Japan yn ymweld â Dounreay
- Panorama
- Gwobrau i Sellafield am ddiogelwch
- Cyhoeddi dogfen am ddarpariaeth niwclear
- Cyhoeddi cylchgrawn Insight yr NDA
- Prif Weithredwr yr NDA yn bwriadu ymddeol
- Ceisio cael caniatâd i apelio yn erbyn dyfarniad

### Dyddiadau i'r Dyddiadur

- |  |                 |
|--|-----------------|
| • Cynhadledd yr IAEA ar Wastraff Ymbelydrol, Fienna              | 21-25 Tachwedd  |
| • Cynhadledd flynyddol Cymdeithas y Diwydiant Niwclear, Llundain | 1 Rhagfyr       |
| • Cyhoeddi Cynllun Busnes Drafft yr NDA                          | 12 Rhagfyr      |
| • Cyhoeddi Rhestr o Wastraff Ymbelydrol y D.U.                   | Ionawr 2017     |
| • Cynhadledd Menywod ym maes Niwclear, Llundain                  | 1 Chwefror 2017 |

## Diweddariad Misol yr NDA – Tachwedd 2016

### Llwyddiant Digwyddiad y Gadwyn Gyflenwi

Daeth mwy na 1,500 o ymwelwyr i chweched digwyddiad blynyddol yr NDA ar gyfer Cadwyn Gyflenwi'r Ystâd, a gynhaliwyd yn EventCity ym Manceinion. Dyma'r digwyddiad prysuraf a mwyaf llwyddiannus hyd yma. Ar ôl cyflwyniadau yn y bore a'r seremoni wobrwyo flynyddol ar gyfer cyflenwyr, roedd y cynadleddwyr yn gallu manteisio ar gyfleoedd i rwydweithio'n anffurfiol a chael cyfres o sesiynau ar bynciau penodol. Ochr yn ochr â'r Parth Arloesi poblogaidd yn y brif neuadd arddangos, cafwyd y Parth Sgiliau cyntaf yn 2016, gyda chynrychiolwyr yno o sefydliadau hyfforddi a datblygu.

[Dolen we: Llwyddiant digwyddiad y gadwyn gyflenwi](#) ac [enillwyr gwobrau](#)

### Ar fin agor ymgynghoriad ar y Cynllun Busnes

Caiff Cynllun Busnes drafft yr NDA ei lansio i ddiben ymgynghori ar 12 Rhagfyr, a bydd ymlaen tan 3 Chwefror 2017. Gydag amlinelliad o'r gwaith sydd ar y gweill ar gyfer 2017 a 2020, mae'r Cynllun yn adlewyrchu'r ddogfen Strategaeth a gyhoeddwyd yn gynharach yn 2016. Rhoddir ystyriaeth i'r adborth a'r sylwadau cyn cyhoeddi'r fersiwn derfynol fis Ebrill nesaf.

### Plymio i'r dyfnderoedd

Credir mai dyma'r tro cyntaf i ddeifwyr yn y D.U. weithio dan y dŵr i dorri a nôl eitemau o'r pyllau hen danwydd yn Dungeness. Mewn gwisgoedd amddiffynnol, gyda diogeliad ychwanegol rhag y dŵr, mae'r timau arbenigol yn gallu gweithio'n agos at y sgipiau a'r cyfarpar eraill yn ogystal â chael mynediad at ardaloedd anodd. Mae deifwyr yn cael eu defnyddio'n amlach yn y diwydiant niwclear yn yr Unol Daleithiau, a gallant fod yn fwy effeithiol na'r dull confensiynol sef defnyddio cyfarpar o bell i godi eitemau o'r dŵr, gyda'r posibilrwydd o lygredd yr awyr.

[Dolen we: Deifwyr yn glanhau pyllau](#)

### Magu stêm yn adweithydd Winfrith

Mae'r darn olaf o jig-so peirianeg cymhleth wrthi'n cael ei roi yn ei le, gan ganiatáu i graidd adweithydd arbrofol eiconaid gael ei symud. Erbyn yn gynnar y flwyddyn nesaf, cwblheir y gwaith o ynysu Adweithydd Dŵr Trwm sy'n Cynhyrchu Ager oddi wrth yr holl beiriannau a chyfarpar a oedd yn caniatáu iddo weithio. Mae hyn yn cynnwys symud pibellau dur gwrthstaen tra arbelydredig a oedd yn porthi dŵr drwy'r adweithydd gan gynhyrchu ager i yrru'r tyrbîn ac yna'n ail-gylchdroi'r dŵr cywasgedig. Gan fod y prosiect mor gymhleth roedd angen misoedd o waith paratoi, gan gynnwys creu gwaith ffug o'r maint llawn. Pan fydd y peipiau - o'r enw codwyr ager a phorthwyr - yn cael eu symud, bydd modd cael mynediad at graidd yr adweithydd er mwyn ei ddatgomiynu.

[Dolen we: Amser datgomiynu adweithydd yn dod yn nes](#)

## Diweddariad Misol yr NDA – Tachwedd 2016

### Penderfyniad cynllunio gan Gyngor Sir Essex

Mae Cyngor Swydd Essex wedi cytuno i ddileu amod cynllunio sy'n rhwystro Gwastraff Lefel Canolradd (ILW) o orsafoedd pŵer eraill rhag cael ei storio yn Bradwell. Mae'r cynlluniau i storio ILW o Dungeness A a Sizewell A yn Bradwell yn rhan o strategaeth ehangach a allai arbed £200 miliwn i'r trethdalwr ar draws fflyd Magnox. Bydd yr NDA a Magnox yn parhau i weithio'n agos â rhanddeiliaid wrth i'r cynlluniau fynd yn eu blaenau.

### Carreg filltir yn y gwaith o ddadlygru Bradwell

Mae mwy na 10,000 metr sgwâr o waliau, lloriau a nenfydau wedi cael eu dadlygru yng nghyfdeilad pyllau Bradwell. Roedd y gwaith o lanhau'r cyfadeilad, dros arwynebedd tebyg i gae rygbi, yn cwblhau 4 blynedd o waith caled a ddechreuodd wrth ddraenio a sefydlogi'r pyllau hen danwydd yn 2012. Mae'r llwyddiant yma'n dilyn y gwaith o wagio'r 18 o fowntiau gwastraff ar y safle, a oedd yn cynnwys metel, tywod, llaid, a deunyddiau **ymbelydrol** eraill a oedd wedi cronni dros y 40 mlynedd pryd roedd yr orsaf bŵer yn cynhyrchu trydan. Mae hyn yn dilyn cwblhau'r gwaith cladin alwminiwm gwrthdywydd o amgylch y ddau adweithydd yn gynharach yn y flwyddyn.

[Dolen we: Carreg filltir yn y gwaith o ddadlygru Bradwell](#)

### Cyhoeddi llyfryn Ymchwil a Datblygu

Mae'r NDA wedi cyhoeddi llyfryn 20 tudalen sy'n rhoi braslun o'i ddull o gefnogi Ymchwil a Datblygu ledled yr ystâd ac i dynnu sylw at gyfres o astudiaethau achos diweddar. Mae'r gwariant blynyddol ar ymchwil a datblygu, gan gynnwys buddsoddi uniongyrchol ar aml safleoedd, a chymorth cyllidol ar gyfer prosiectau ar y safle, tua £85 miliwn y flwyddyn.

[Dolen we: Llyfryn Ymchwil a Datblygu 2016](#)

### Llysgennad Japan yn ymweld â Dounreay

Roedd yr NDA yn croesawu'r cyfle i rannu hynt y gwaith datgomisiynu yn ei safle mwyaf gogleddol gyda Llysgennad Japan i'r D.U. Yn ymuno â'i Anrhydedd, Mr Koji Tsuruoka, roedd Mr Yosuki Ishigami o Adran Economaidd Llysgenhadaeth Japan a Mr Daisuke Matsunaga, Prif Gonswl Japan yng Nghaeredin wrth iddynt ymweld â Dounreay yn ystod deuddydd o ymweliad â gogledd yr Alban fel gwesteion i Dr Paul Monaghan AS.

[Dolen we: Ymweliad Llysgennad Japan](#)

### Panorama

Rhyddhaodd yr NDA a Sellafield Ltd ddatganiad ar y cyd i ymateb i'r rhaglen Panorama a ddarllledwyd ddechrau mis Medi.

[Dolen we: Datganiad Panorama](#)

## Diweddariad Misol yr NDA – Tachwedd 2016

### Gwobrau i Sellafield am ddiogelwch

Mae'r safle wedi cofnodi un o'i berfformiadau gorau erioed yng ngwobrau'r RoSPA, gan ennill naw gwobr aur ac un wobwr arian. Mae gwobrau RoSPA yn cael eu cynnal ers 60 mlynedd. Maent yn cael eu cydnabod yn rhyngwladol a dyma'r gwobrau diogelwch uchaf eu bri yn y D.U. Cafodd pedair o'r medalau aur eu hennill yn y rhannau peryclaf o'r safle, sef yr hen byllau a'r seilos.

[Dolen we: Diogelwch o safon aur yn Sellafield](#)

### Cyhoeddi dogfen am ddarpariaeth niwclear

Mae'r NDA wedi cyhoeddi dogfen sy'n esbonio tarddiad gwaddol niwclear y D.U., a'r materion sy'n gysylltiedig â rhagweld cost gwaith sydd am bara cymaint o flynyddoedd. Y Ddarpariaeth Niwclear yw'r amcangyfrif gorau o faint fydd y gost o lanhau'r 17 o safleoedd niwclear cynharaf yn y D.U. dros gyfnod tua 120 o flynyddoedd.

[Dolen we: Darpariaeth niwclear](#)

### Cyhoeddi cylchgrawn Insight yr NDA

Mae'r rhifyn diweddaraf o Insight wedi cael ei gyhoeddi. Insight yw ein cylchgrawn newyddion, lle rydym yn rhoi cip ar rai o'r datblygiadau ar draws ystâd yr NDA. Mae'r rhifyn yma'n cynnwys newyddion am y coleg niwclear, y digwyddiad ar gyfer y gadwyn gyflenwi yn 2016, uchafbwyntiau'r adroddiad blynyddol a golwg ar ymchwil a datblygu.

[Dolen we: Insight - rhifyn 21](#)

### Prif Weithredwr yr NDA yn bwriadu ymddeol

Bydd John Clarke, Prif Weithredwr yr NDA, yn ymddeol y flwyddyn nesaf. Cyhoeddwyd y newyddion gan Stephen Henwood, Cadeirydd yr NDA, a ddywedodd: "Yn sgil ei arweiniad, ei egni a'i ymrwymiad, mae John wedi gwella perfformiad yn Sellafield gyda model gweithredu newydd, wedi sefydlu dull integredig o gyflymu'r broses o ddatgomisiynu ledled yr ystâd yn ogystal â llunio'r strategaeth orau bosib sy'n golygu mwy o werth i'r trethdalwr." Mae Pete Lutwyche, Prif Swyddog Gweithrediad yr NDA, hefyd wedi gadael i weithio yn y sector preifat.

[Dolen we: Cyhoeddi ymddeoliad Prif Weithredwr yr NDA](#)

### Yr NDA eisiau apelio yn achos ES vs NDA

Mae'r NDA wedi cyflwyno cais i'r Llys Apêl i geisio cael caniatâd i apelio yn erbyn y dyfarniad ym mis Gorffennaf yn yr hawliad gan EnergySolutions EU am iawndal. Roedd EnergySolutions EU yn un o'r cynigwyr aflwyddiannus yn y gystadleuaeth i benodi Sefydliad Rhiant-Gorff ar gyfer y 12 safle Magnox ac RSRL. Mae'r hawliad ar gyfer iawndal yn unig. Nid oes her i'r ffaith fod yr NDA wedi dyfarnu'r contract i Cavendish Fluor Partnership.